



Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

14 Mawrth 2022

Annwyl Huw

Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad am graffu ar y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) yn ystod Cyfnod 1 ac am yr adroddiad a gyhoeddwyd ar 2 Mawrth 2022.

Yn yr adroddiad, roedd rhai argymhellion a oedd yn gofyn am ragor o wybodaeth cyn y ddadl ar yr egwyddorion cyffredinol. Er hwylustod i'r Pwyllgor rwyf wedi nodi fy ymateb i'r argymhellion hyn isod.

Yn **argymhelliad 2**, holodd y pwyllgor am ein hystyriaeth o ddarpariaethau'r Bil, gan gynnwys yr hawliau mynediad ac arolygu y darperir ar eu cyfer yn adrannau 62 a 72, mewn perthynas â Deddf Hawliau Dynol 1988 (Deddf 1988). Gallaf gadarnhau bod goblygiadau dynol darpariaethau'r Bil wedi'u hystyried wrth ddatblygu'r Bil ac rwy'n fodlon bod y Bil, gan gynnwys y darpariaethau hynny a grybwyllwyd yn benodol gan y Pwyllgor, yn gydnaws â hawliau'r Confensiwn.

Mae **argymhelliad 11** ac **argymhelliad 14** yn ymwneud â darostwng rhai pwerau gwneud rheoliadau gan Weinidogion Cymru, yn benodol adran 30 a 77 o'r Bil, i ddyletswydd ymgynghori statudol.

Fel yr eglurais wrth fynychu'r Pwyllgor ym mis Rhagfyr, y disgwyliad cyffredinol yw y bydd is-ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru yn destun ymgynghoriad. Mae rhai pwerau i wneud

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi cyn ymateb.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

rheoliadau yn y Bil yn ddarostyngedig i ddyletswydd ymgynghori statudol oherwydd eu natur neu am fod ymgynghori ag unigolion penodol yn arbennig o berthnasol. Byddaf yn ystyried ymhellach a fyddai'r pwerau hyn yn elwa'n benodol ar ddyletswydd ymgynghori statudol.

Mae fy ymateb i **argymhelliad 4**, ynghylch ystod o bwerau i wneud rheoliadau yn Rhan 2 a 3 o'r Bil, wedi'i nodi yn yr Atodiad i'r llythyr hwn.

Mewn perthynas ag **argymhelliad 17**, sy'n cwestiynu a yw'r pŵer i wneud cyfarwyddyd yn adran 106 o'r Bil yn deillio o adran 81(3) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 (Deddf 1992) ac os felly, y rhesymeg dros y weithdrefn a bennir yn adran 106 mewn perthynas â rhoi cyfarwyddyd cymorth ariannol i'r Comisiwn.

Gallaf gadarnhau bod adran 106 o'r Bil yn deillio o adran 81(3) o Ddeddf 1992. Ar hyn o bryd, mae adran 81(3) o Ddeddf 1992 yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo CCAUC ynghylch darparu cymorth ariannol i sefydliad yn y sector addysg uwch os ydynt o'r farn bod materion ariannol y sefydliad naill ai wedi'u camreoli, neu'n cael eu camreoli.

Mae adran 106 o'r Bil yn gwneud darpariaeth debyg sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddiadau cymorth ariannol i'r Comisiwn ynghylch darparu neu sicrhau adnoddau ariannol o dan bwerau penodedig i berson perthnasol, os yw'n ymddangos i Weinidogion Cymru bod materion ariannol y person hwnnw wedi cael eu camreoli, neu'n cael eu camreoli.

Mae holl bwerau'r Bil wedi cael eu hystyried yn drylwyr mewn perthynas â'r modd y mae'r pŵer i gael ei arfer a gweithdrefn briodol y Senedd. Wrth wneud hynny, ystyriwyd natur unrhyw ddarpariaeth bresennol, y deilliodd y pŵer ohoni, ond nid yw'r dull hanesyddol o ymdrin â'r pŵer gwreiddiol wedi'i ddwyn ymlaen yn awtomatig os nad ystyriwyd bod gwneud hynny o reidrwydd yn briodol.

Mae'r pŵer yn adran 106 yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddiadau i'r Comisiwn ar faterion penodol, fel y nodir yn adran 106. O'r herwydd, mae'r cyfarwyddiadau hyn yn ymwneud ag un corff a materion penodol ac nid ydynt yn darparu ar gyfer deddfu cyffredinol o natur ehangach.

Rwyf o'r farn bod gofynion y Bil mewn perthynas â'r gofyniad ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi'r cyfarwyddyd, adrodd i'r Senedd bod cyfarwyddyd wedi'i roi a gosod copi gerbron y Senedd, yn ddigonol i sicrhau hygyrchedd a thryloywder y cyfarwyddiadau a roddir i'r Comisiwn o dan adran 106.

Gan droi at **argymhelliad 20** a oedd yn gofyn am gadarnhad y byddwn yn ymgynghori â chyrff a gaiff eu heffeithio gan adran 111 o'r Bil, sy'n darparu ar gyfer pennu gofynion mewn perthynas â phrentisiaeth gymeradwy yng Nghymru, cyn i'r gofynion gael eu pennu mewn perthynas â'r adran honno.

Gallaf gadarnhau bod adran 112 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori'n gyntaf â'r Comisiwn a gydag unrhyw bersonau eraill y tybiant sy'n briodol cyn pennu, diwygio neu dynnu'n ôl unrhyw ofynion o dan adran 111. Rwyf o'r farn y byddai'r cyfryw bersonau eraill yn cynnwys y cyrff hynny a gaiff eu heffeithio gan unrhyw ddarpariaeth a wneir o dan adran 111, fodd bynnag rwy'n fodlon ystyried drafftio adran 112 ac ystyried a allai fod angen gwelliant i gryfhau'r gofyniad.

Gallaf hefyd gadarnhau, mewn ymateb i **argymhelliad 21**, nad oes dyletswydd yn cael ei rhoi ar y Comisiwn yn y Bil i ymateb i ymgynghoriad o dan adran 112 o'r Bil.

Ymatebaf i'r argymhellion sy'n weddill yn y ddadl ar egwyddorion cyffredinol a thrwy lythyr pellach y bwriadaf ei anfon at y Pwyllgor yn dilyn y ddadl honno.

Rwy'n gobeithio y bydd y llythyr hwn yn ddefnyddiol o ran rhoi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor. Mae copi o'r llythyr hwn wedi'i anfon at y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to be 'J Miles', with a stylized, cursive script.

Jeremy Miles AS/MS

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

Argymhelliad 4. Dylai'r Gweinidog, cyn dadl Cyfnod 1 ar egwyddorion cyffredinol y Bil, roi rhagor o eglurder ynghylch y pwerau yn adrannau 32, 52(8), 55(1)(f), 59(1), 61(9)(a), 86(6), 95(2) a 101(3) o'r Bil a sut y bwriedir iddynt gael eu defnyddio gan Weinidogion Cymru

Adran	Disgrifiad	Diben arfaethedig
32	Pŵer i ddarparu ar gyfer amodau cofrestru parhaus mandadol pellach	<p>Bwriedir i'r pŵer hwn gael ei ddefnyddio gan Weinidogion Cymru i bennu amodau cofrestru parhaus gorfodol yn ychwanegol at y rhai a bennir yn y Bil.</p> <p>Er nad oes bwriad ar unwaith i arfer y pŵer hwn, gan fod yr holl amodau cofrestru parhaus perthnasol cyfredol wedi'u nodi ar wyneb y Bil, rhagwelir, wrth i'r sector addysg drydyddol esblygu, y gallai fod materion rheoleiddio ychwanegol a all fod yn briodol neu'n angenrheidiol i ddarparu ar eu cyfer.</p> <p>Mae'r pŵer hwn yn galluogi i ddisgwyliadau rheoleiddio o'r fath gael eu nodi'n glir a bod yn destun craffu gan y Senedd.</p> <p>Mae'r Bil yn darparu ar gyfer pŵer cyfatebol mewn perthynas â darparu amodau cofrestru cychwynnol ychwanegol (adran 25(3)) ac mae'r datganiad o fwriad polisi a gyhoeddir gyda'r Bil yn nodi'r bwriad i ddefnyddio'r pŵer hwnnw.</p>
52(8)	Pŵer i wneud darpariaeth ynghylch yr amgylchiadau pan fo person i'w drin fel pe bai'n gyfrifol am ddarparu cwrs.	<p>Mae adran 52(8) yn caniatáu i Weinidogion Cymru bennu amgylchiadau lle y dylai neu na ddylai ddarparwr allanol gael ei drin fel petai'n ddarparu'r cwrs cyfan neu ran o gwrs ar ran sefydliad cofrestredig. Ar hyn o bryd, mae gan Weinidogion Cymru bŵer cyfatebol o dan adran 17(4)(a) o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015.</p> <p>Mae trefniadau partneriaeth rhwng darparwyr, fel trefniadau masnachfaint, yn aml ar ffurf newydd ac yn esblygu'n rheolaidd. Gall y rhain gynnwys, er enghraifft, trefniadau rhwng darparwyr addysg uwch neu rhwng prifysgolion a cholegau lle, fel y nodir yn</p>

Adran	Disgrifiad	Diben arfaethedig
		<p>adran 52(7)(b), y gall person ac eithrio darparwr cofrestredig fod yn gyfrifol am ddarparu cwrs addysg uwch cyfan neu ran ohono.</p> <p>Mewn achosion o'r fath, mae'n hollbwysig at ddibenion sicrhau ansawdd, lle y gall fod perygl o ddryswch ynghylch pa ddarparwr sydd i'w drin fel yr un sy'n gyfrifol am ddarparu cwrs, bod y gyfraith yn gallu rhoi eglurder ar faterion o'r fath. Mae perygl y byddai darparu ar gyfer pob math posibl o drefniant cyfredol ar faterion o'r fath mewn deddfwriaeth sylfaenol esgor ar ddeddfwriaeth anhylaw a rhy hir a allai ddyddio hefyd, ac felly mae'n briodol bod pŵer o'r fath i ddarparu eglurder yn bodoli drwy is-ddeddfwriaeth.</p>
55(1)(f)	Pŵer i bennu addysg a hyfforddiant y mae'n rhaid i'r Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant (y "Prif Arolygydd") eu harolygu, yn ychwanegol at addysg a hyfforddiant a nodir ar wyneb y Bil.	<p>Mae swyddogaethau'r Prif Arolygydd yn addasu dros amser yn unol â newidiadau yn y sector ôl-16.</p> <p>Er enghraifft, mae'r ddarpariaeth brentisiaethau, ar lefelau is ac uwch o gymwysterau, yn llawer mwy eang heddiw nag yr oedd yn y flwyddyn 2000, sef y tro diwethaf i swyddogaethau ôl-16 y Prif Arolygydd gael eu pennu mewn deddfwriaeth. Mae prentisiaethau lefel uwch yn enwedig, yn faes lle gall swyddogaethau'r Prif Arolygydd fod yn llai clir o dan y fframwaith deddfwriaethol sylfaenol, a bu hyn yn destun trafodaeth a gwaith partneriaeth yn ystod y blynyddoedd diwethaf rhwng Llywodraeth Cymru, Estyn a CCAUC.</p>
59(1)	Pŵer i roi swyddogaethau pellach i'r Prif Arolygydd mewn cysylltiad â'r addysg a'r hyfforddiant a ddisgrifir yn adran 55(1).	<p>Beth bynnag y cytunir arno ynghylch rôl y Prif Arolygydd mewn perthynas â phrentisiaethau uwch neu unrhyw fathau eraill o addysg a hyfforddiant ôl-16 a ddaw i'r fei, mae'n bwysig bod swyddogaethau o'r fath o fewn <i>vires</i>. Y rhesymeg dros gynnal y pwerau hyn i nodi ymhellach mewn is-ddeddfwriaeth y disgrifiad o addysg y mae'n rhaid i Estyn ei harolygu a'i swyddogaethau yn hynny o beth felly yw sicrhau y gall gwaith Estyn barhau i adlewyrchu newidiadau ym mhatrwm a darpariaeth addysg a hyfforddiant ôl-16 yn y dyfodol.</p>

Adran	Disgrifiad	Diben arfaethedig
61(9)(a)	<p>Pŵer i wneud darpariaeth bellach mewn perthynas â'r ddyletswydd i ddarparu gwybodaeth i'r Prif Arolygydd am arolygiad ardal; a'i gwneud yn ofynnol i adroddiadau arolygu gael eu cyhoeddi cyn diwedd cyfnod penodedig.</p>	<p>Gall y materion a'r personau sy'n berthnasol i gynnal arolygiad ardal amrywio yn dibynnu ar bolisi presennol Estyn, y Comisiwn, neu Weinidogion Cymru. Mae adran 61 yn dweud y gall Estyn, wrth gynnal arolygiad ardal, ystyried ansawdd a rheolaeth ariannol adnoddau ar gyfer addysg a hyfforddiant mewn ardal, gan gynnwys gwerth am arian. Wrth lunio barn o'r fath ar ansawdd neu werth am arian addysg a hyfforddiant, gall y Prif Arolygydd ofyn am wybodaeth berthnasol gan amrywiaeth o randdeiliaid yn ehangach na'r rhai a nodir yn adran 61(7), megis Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, Cydbwyllgorau Corfforaethol, grwpiau cyflogwyr a chynrychiolwyr, undebau llafur, cynrychiolwyr myfyrwyr a dysgwyr, neu gyrff perthnasol eraill. Mae'r pŵer hwn yn sicrhau y gellir gwneud darpariaeth ar gyfer, lle bo angen, y cyfryw wybodaeth berthnasol i'w chaffael gan y Prif Arolygydd.</p>
86(1)	<p>Pŵer i bennu cwrs addysg uwch penodol neu ddisgrifiad o gwrs addysg uwch y gall y Comisiwn ddarparu adnoddau ariannol mewn perthynas ag ef.</p>	<p>Y bwriad yw defnyddio'r pŵer hwn i fynd i'r afael â bylchau mewn darpariaeth addysg uwch pe bai angen. Gall bylchau yn y ddarpariaeth ddeillio o'r ffaith bod prinder sefydliadau penodol (h.y. darparwyr a gofrestrwyd mewn categori a nodwyd mewn rheoliadau a wnaed dan adran 85(3)) yn gallu diwallu angen a nodwyd. Er enghraifft, yr angen i ddarparu cwrs arbenigol yng Nghymru neu gwrs i'w ddilyn gan nifer fach o fyfyrwyr sydd fel arfer yn preswyllo yng Nghymru, ac na fydd o bosibl yn gost-effeithiol i sefydliadau penodol ei ddarparu.</p> <p>Hefyd, mae rhai cyrsiau sy'n is na lefel gradd sy'n arwain at gymwysterau proffesiynol ar lefelau 4 a 5 ar y fframwaith cymwysterau yn cael eu hariannu ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru a'u darparu gan sefydliadau Addysg Bellach. Gall cyrsiau o'r fath fod yn berthnasol i wella rhagolygon cyflogaeth, ailsigilio neu fodloni safonau diwydiant neu sector-benodol.</p>

Adran	Disgrifiad	Diben arfaethedig
95(2)	Pŵer i wneud amod mai dim ond at ddibenion penodedig ar gyfer addysg a hyfforddiant pellach y gellir sicrhau cymorth ariannol dan adran 94(1)(a) neu (b) i ddarparwyr sy'n gofrestredig mewn categorïau penodol. Caiff rheoliadau ddarparu ar gyfer eithriadau i gyrsiau neu hyfforddiant penodedig neu i ddisgrifiadau penodedig o gyrsiau o'r fath fod yn gofrestredig.	Er nad yw'n bolisi gan y llywodraeth i greu unrhyw gategorïau cofrestru ar gyfer darparwyr prentisiaethau, addysg bellach neu hyfforddiant yn y tymor byr, mae'r Bil wedi'i ddrafftio yn y fath fodd fel y gellir ehangu'r trefniadau rheoleiddio fel y'u nodir yn y Bil dros amser i gynnwys categorïau eraill heb fod angen deddfwriaeth sylfaenol bellach.
101(3)	Pŵer i wneud amod na chaiff y Comisiwn ddarparu adnoddau ariannol mewn perthynas â gwariant sy'n gysylltiedig â darparu prentisiaeth Gymreig gymeradwy ac eithrio i ddarparwyr sydd wedi eu cofrestru mewn categorïau a bennir yn y rheoliadau.	